***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 251

# Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) (Cymru) 2022

## RHAN 6

## Diwygiadau i Reoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009

**Diwygiadau i Reoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009**

**21.** Mae Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009([1]) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Diwygiadau i reoliad 1(2)**

**22.** Yn rheoliad 1(2) (enwi, cychwyn a dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "penodai", ar ôl "cadeirydd" mewnosoder "neu is-gadeirydd";

(b) yn y diffiniad o "cyfarwyddwr", ar ôl "chadeirydd" mewnosoder "a'i his-gadeirydd".

**Diwygiadau i reoliad 2**

**23.** Yn rheoliad 2 (mwyafswm nifer y cyfarwyddwyr)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle "11" rhodder "12";

(ii) ar ôl "cadeirydd" mewnosoder "na'r is-gadeirydd";

(b) ym mharagraff (2)—

(i) ar ôl "cadeirydd" mewnosoder "na'r is-gadeirydd";

(ii) yn lle "5 cyfarwyddwr" rhodder "6 chyfarwyddwr".

**Diwygiad i reoliad 4(c)**

**24.** Yn rheoliad 4(c) (cyfarwyddwyr gweithredol), yn lle "tri chyfarwyddwr" rhodder "pedwar cyfarwyddwr".

**Diwygiadau i reoliad 8**

**25.** Yn rheoliad 8 (deiliadaeth swydd cadeirydd a chyfarwyddwyr)—

(a) yn y pennawd, ar ôl "cadeirydd" mewnosoder ", is-gadeirydd":

---

(**1**) O.S. 2009/1385 (Cy. 141), a ddiwygiwyd gan O.S. 2012/1641 ac O.S. 2013/235; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(b) ym mharagraff (1), ar ôl "cadeirydd" mewnosoder "ac is-gadeirydd".

**Diwygiad i reoliad 10**

**26.** Yn rheoliad 10 (terfynu deiliadaeth swydd cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol)—

(a) yn y pennawd, ar ôl "cadeirydd" mewnosoder ", is-gadeirydd";

(b) ym mharagraff (1), ar ôl "cadeirydd" mewnosoder "neu is-gadeirydd";

(c) ym mharagraff (2), ar ôl "gadeirydd" mewnosoder "neu'n is-gadeirydd" ac ar ôl "cadeirydd" mewnosoder "neu is-gadeirydd";

(d) ym mharagraff (3), ar ôl "gadeirydd" mewnosoder "neu'n is-gadeirydd";

(e) ym mharagraff (4), ar ôl "cadeirydd", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder "neu is-gadeirydd" ac yn yr ail le y mae'n digwydd mewnosoder ", yr is-gadeirydd";

(f) ym mharagraff (5), ar ôl "gadeirydd" mewnosoder "neu'n is-gadeirydd" ac ar ôl "cadeirydd" mewnosoder ", is-gadeirydd";

(g) ym mharagraff (6), ar ôl "gadeirydd" mewnosoder "neu'n is-gadeirydd";

(h) ym mharagraff (7), ar ôl "cadeirydd" mewnosoder "neu is-gadeirydd".

**Diwygiadau i reoliad 11**

**27.** Yn rheoliad 11 (atal cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol o'u swyddi), ar ôl "cadeirydd", ym mhob lle y mae'n digwydd, mewnosoder ", is-gadeirydd" (gan gynnwys y pennawd).

**Hepgor rheoliad 13**

**28.** Hepgorer rheoliad 13.

**Diwygiad i reoliad 14**

**29.** Yn rheoliad 14(1) (cymhwystra ar gyfer ailbenodi), ar ôl "cadeirydd" mewnosoder "neu is-gadeirydd".

**Diwygiadau i reoliad 15**

**30.** Yn rheoliad 15 (datgymhwyso rhag penodi cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol)—

(a) yn y pennawd, ar ôl "cadeirydd" mewnosoder ", is-gadeirydd";

(b) ym mharagraff (1), ar ôl "gadeirydd", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder "neu'n is-gadeirydd";

(c) ym mharagraff (4), ar ôl "gadeirydd", yn y ddau le y mae'n digwydd, mewnosoder "neu'n is-gadeirydd".

**Hepgor rheoliad 17**

**31.** Hepgorer rheoliad 17.

**Diwygiad i reoliad 18**

**32.** Yn lle rheoliad 18 (pwerau is-gadeirydd), rhodder—

"**18.** O ran cadeirydd yr Ymddiriedolaeth—

(a) os yw wedi marw;

(b) os yw wedi peidio â bod yn ddeiliad y swydd; neu

(c) os nad yw'n gallu cyflawni dyletswyddau'r cadeirydd oherwydd salwch, oherwydd ei fod yn absennol o Gymru a Lloegr, oherwydd ei fod wedi ei atal dros dro o dan reoliad 11 neu oherwydd unrhyw achos arall,

rhaid i'r is-gadeirydd weithredu fel cadeirydd hyd nes y caiff cadeirydd newydd ei benodi neu hyd nes bod y cadeirydd presennol yn ailafael yn nyletswyddau'r cadeirydd; a rhaid cymryd bod cyfeiriadau at y cadeirydd yn Atodlen 2, tra nad oes cadeirydd neu tra na fydd y cadeirydd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, yn cynnwys cyfeiriadau at yr is-gadeirydd."

**Diwygiad i reoliad 21**

**33.** Yn rheoliad 21 (pwyllgor ar gyfer penodi prif swyddog yn gyfarwyddwr), ar ôl "cadeirydd" mewnosoder "ac is-gadeirydd".

**Diwygiad i reoliad 22**

**34.** Yn rheoliad 22 (pwyllgor ar gyfer penodi cyfarwyddwyr gweithredol ac eithrio'r prif swyddog), ar ôl "cadeirydd" mewnosoder ", yr is-gadeirydd".

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**35.** Yn Atodlen 1 (gweithdrefnau ar gyfer penodi'r cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol)—

(a) yn y pennawd, ar ôl "cadeirydd" mewnosoder ", yr is-gadeirydd";

(b) ym mharagraff 1, ar ôl "cadeirydd" mewnosoder ", yr is-gadeirydd".

**Diwygiadau i Atodlen 2**

**36.** Yn Atodlen 2 (rheolau ynghylch cyfarfodydd a thrafodion yr Ymddiriedolaeth), ym mharagraff 3—

(a) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Os yw'r cadeirydd yn absennol o'r cyfarfod, rhaid i'r is-gadeirydd, os yw'n bresennol, lywyddu.";

(b) yn is-baragraff (2) hepgorer "(os o gwbl)".